



Cynnwys y gymuned yn y tir a reolir gan CNC

Cyflwyniad

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn rheoli 7% o dir Cymru yn uniongyrchol, ar ran poblogaeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys 120,000ha o goetir, 42 Gwarchodfa Natur Genedlaethol a phum Canolfan Ymwelwyr.

Mae'r tir a reolir gan CNC yn ased cyhoeddus arwyddocaol a'n blaenoriaeth yw sicrhau bod yr ased hwn ar gael, yn ddeniadol ac yn groesawgar i bobl. Rydym yn cydnabod, trwy gydweithio, y gallwn sicrhau'r manteision cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd mwyaf i bobl Cymru.

Byddwn yn cyflawni nodau Deddf yr Amgylchedd (Cymru) a Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), gan gymhwyso egwyddorion rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol wrth wneud y gorau o'n cyfraniad at y saith [Nod Lles](#). Gan weithio gyda'n staff a'n partneriaid, byddwn yn dilyn y nodau canlynol:

- Mwy o bobl yn cymryd rhan yn aml mewn hamdden awyr agored ac yn elwa ohoni.
- Mwy o ddealltwriaeth gyhoeddus o adnoddau naturiol, a gofalu amdanynt - gan arwain at newidiadau ymddygiad a ffyrdd byw mwy cynaliadwy.
- Gwell cydraddoldeb cymdeithasol a chydlyniant cymunedol.
- Mwy o fanteision economaidd i bobl a chymunedau - lleihau lefelau tlodi.

Byddwn yn gwneud hyn drwy:

- Bod yn gorff cyhoeddus enghreifftiol, gan fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd ar gyfer menter, datblygu sgiliau a hyrwyddo lles drwy'r tir rydym yn ei reoli.
- Bod yn sefydliad sy'n galluogi, gan weithio gyda phartneriaid ac ymgysylltu â chymunedau mewn modd agored, cydweithredol a theg, i gefnogi gweithgareddau, digwyddiadau a phrosiectau ar dir a reolir gan CNC. Byddwn hefyd yn croesawu cynigion gan ystod eang o sefydliadau, grwpiau ac unigolion.
- Cyflogi staff gyda'r sgiliau i hwyluso a rheoli'r gwaith hwn.
- Lle bo modd, defnyddio tystiolaeth ofodol i sicrhau ein bod yn buddsoddi adnoddau yn yr ardaloedd mwyaf anghenus, gan ddarparu'r budd mwyaf i unigolion a chymunedau.

- Cadw at egwyddorion o ran mynediad lleiaf rhwystrol. Mae hyn yn golygu y byddwn yn hwyluso'r mynediad gorau posibl i'r tir rydym yn ei reoli.
- Yn dilyn ein [Safonau Gofal Cwsmeriaid a Gwasanaeth](#) i sicrhau bod ein cwsmeriaid yn cael ymatebion cyson ac amserol sy'n mynd i'r afael â'u hanghenion unigol.
- Cynhyrchu datganiadau sefyllfa sy'n benodol i weithgaredd, i sicrhau bod gennym ddull cyson a thryloyw o reoli gweithgareddau hamdden, mynediad, addysg, cymunedol ac adfywio ar dir a reolir gan CNC.

Wrth gynnal y gwaith hwn, byddwn yn:

- Cydymffurfio ag [Is-ddeddfau](#) a chyfyngiadau cyfreithiol eraill ar y tir rydym yn ei reoli, fel tir prydlesol a chyfamodau cyfyngol. Bydd angen ein caniatâd ffurfiol ar weithgareddau, digwyddiadau neu brosiectau a allai arwain at dorri Is-ddeddfau.
- Rhoi gwybodaeth am berygl i ymgeiswyr fel y gallant baratoi asesiadau risg i reoli diogelwch pawb yn ystod eu gweithgaredd (ac yn ystod eu paratoi a'u tynnu i lawr), gan gadw mewn cof [egwyddorion Grŵp Diogelwch Ymwelwyr yng Nghefn Gwlad](#).
- Cydymffurfio â gofynion rheoli [Safon Sicrwydd Coetiroedd y DU](#) a Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol.
- Ystyried ein hatebolrwydd am ddiogelwch y cyhoedd, rheoli safleoedd i sicrhau fod ymwelwyr yn ddiogel ac arwyddo gweithrediadau rheoli tir pan fo angen.
- Sicrhau bod hawliau tramwy yn cael eu rheoli a'u cynnal yn unol â'n rhwymedigaethau fel rheolwr y tir. Yn ychwanegol at hyn, rydym yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu a hyrwyddo llwybrau mynediad caniatadol eraill.
- Lliniaru yn erbyn lledaeniad afiechyd, a bygythiadau bioddiogelwch eraill, drwy reoli, addysgu, a lle bo angen, gyfyngu ar fynediad.
- Ystyried a all y safle gynnal unrhyw weithgaredd, digwyddiad neu brosiect arfaethedig. Sy'n gofyn bod trefnwyr yn:
 - asesu effaith gymdeithasol ac amgylcheddol y gweithgaredd, digwyddiad neu brosiect arfaethedig ac yn gallu sicrhau y caiff ei reoli i'r safon gywir.
 - bod ganddynt yswiriant priodol ac yn gyfrifol am iechyd a diogelwch y rhai sy'n cymryd rhan (y cyfranogwyr a threfnwyr) neu'r rhai y gellid effeithio arnynt, gan gynnwys gwylwyr, ymwelwyr eraill a thrydydd partïon.
 - cydymffurfio â'r gyfraith ac ni fyddant yn niweidio enw da CNC.
 - ymatal rhag rhoi cyhoeddusrwydd i weithgareddau, digwyddiadau neu brosiectau hyd nes y bydd y dyddiad a lleoliad wedi'i gadarnhau gan CNC.

- Hyrwyddo'r teulu o Godau Cefn Gwlad a chanllawiau arfer gorau eraill a gynhyrchir gan gyrff llywodraethu cenedlaethol a sefydliadau partner.
- Gweithio yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010 a hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r Gymraeg.
- Cyhoeddi manylion unrhyw ffioedd a godwn a sicrhau eu bod yn deg, yn dryloyw ac yn cael eu cymhwyso'n gyson. Bydd y taliadau yn cymryd i ystyriaeth y costau i CNC o gynnal y gweithgaredd, y digwyddiad neu'r prosiect, yn ogystal â'i raddfa a'i bwrpas - er enghraifft p'un a yw ar gyfer diben elusennol¹, masnachol² neu gymdeithasol³.

¹ Diben elusennol yw un a fwriedir i godi arian ar gyfer elusen gofrestrdig neu sawl elusen, ac am ddim elw arall.

² Diben masnachol yw un a fwriedir i gynhyrchu elw i gwmni, mewn arian neu roddion. Mae hyn yn cynnwys gweithgareddau lle mae peth o'r refeniw'n cael ei roi i elusen.

³ Diben cymdeithasol yw un a fwriedir i godi arian menter neu fusnes gydag amcanion cymdeithasol yn bennaf, y mae eu gwargedion yn cael eu hailfuddsoddi at y diben hwn.